# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 15 Mai 2018

Amser: 09.05 - 10.57

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4756

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Elfed Wyn Jones, Deisebydd<br>Dr Elin Jones |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc)<br>Kathryn Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-812 Dylid gweithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ymateb i'r awgrym nad yw nifer o fyrddau iechyd yng Nghymru yn dilyn canllawiau NICE ar gyfer trin anhwylder personoliaeth ffiniol, ac y gall pobl sydd â'r diagnosis hwn wynebu gwaharddiad rhag gwasanaethau therapi seicolegol cyfredol; ac
- ystyried ysgrifennu at Fyrddau Iechyd Lleol yn y dyfodol, yn dibynnu ar yr ymateb a geir.

## 2.2 P-05-813 Gwahardd y DEFNYDD O FAGLAU LARSEN (maglau dal sawl math o frân)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at randdeiliaid gan gynnwys RSPCA Cymru, RSPB Cymru, y Gynghrair Cefn Gwlad a'r Sefydliad Ciperiaid Cenedlaethol, i ofyn am eu barn ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

## 2.3 P-05-814 Pob adeilad newydd yng Nghymru i gael paneli solar

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- aros am sylwadau'r deisebydd ar yr ymateb a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig; a
- gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet am fanylion ychwanegol am yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad o Ran L (Cadwraeth tanwydd a phŵer) y Rheoliadau Adeiladu.

# 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## 3.1 P-04-688 Gorsaf Bŵer Tata Steel ym Mhort Talbot

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil y trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a Tata Steel, cyhoeddiad ynghylch yr arian ar gyfer gwelliannau i'r ffatri bŵer, a'r tebygolrwydd nad oes llawer o gamau cadarn pellach y gall y Pwyllgor Deisebau eu cymryd.

## 3.2 P-05-701 Gwelliannau i Ddiogelwch y Ffordd ar Hyd Cefnffordd yr A487 Rhwng Aberteifi ac Aberystwyth, i Gynnwys Mannau Pasio

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil yr ystyriaeth weithredol a roddir i welliannau ar yr A487 yng Ngheredigion a phroffil uwch y mater drwy'r ddeiseb.

## 3.3 P-05-716 Cludiant am Ddim ar y Trenau i Ddisgyblion Ysgol gyda Threnau Arriva Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i:

- gau'r ddeiseb ar y sail bod y trefniadau diogelwch wedi'u nodi drwy asesiad o'r risg i ddisgyblion ar y platfform yng ngorsaf Treorci, a chan fod cynnig cludiant am ddim yn benderfyniad masnachol i weithredwr y fasnachfraint rheilffyrdd; ac
- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn a fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion a godwyd yn y ddeiseb fel rhan o'r fasnachfraint rheilffyrdd newydd.

## 3.4 P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-05-767 Cefnffordd yr A487 Trwy Dre Taliesin a P-05-792 Deiseb i ymestyn y terfyn cyflymder 40mya ym Mlaenporth a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am y canlynol:

- manylion pellach am gynnydd yr Adolygiad o Derfyn Cyflymder hyd yma, yr egwyddorion sy'n sail iddo a'r meini prawf asesu a ddefnyddiwyd; ac
- enghreifftiau ymarferol o leoedd a adolygwyd yn ystod 2018 hyd yma, a beth oedd y canlyniad ym mhob achos.

### 3.5 P-05-767 Cefnffordd yr A487 Trwy Dre Taliesin: Angen Brys am Fesurau Effeithiol i Arafu Traffig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes a P-05-7922 Deiseb i ymestyn y terfyn cyflymder 40mya ym Mlaenporth, a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am y canlynol:

- manylion pellach am gynnydd yr Adolygiad o Derfyn Cyflymder hyd yma, yr egwyddorion sy'n sail iddo a'r meini prawf asesu a ddefnyddiwyd; ac
- enghreifftiau ymarferol o leoedd a adolygwyd yn ystod 2018 hyd yma, a beth oedd y canlyniad ym mhob achos.

### 3.6 P-05-792 Deiseb i ymestyn y terfyn cyflymder 40mya ym Mlaenporth.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes a P-05-767 Cefnffordd yr A487 Trwy Dre Taliesin: Angen Brys am Fesurau Effeithiol i Arafu Traffig a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am y canlynol:

- manylion pellach am gynnydd yr Adolygiad o Derfyn Cyflymder hyd yma, yr egwyddorion sy'n sail iddo a'r meini prawf asesu a ddefnyddiwyd; ac
- enghreifftiau ymarferol o leoedd a adolygwyd yn ystod 2018 hyd yma, a beth oedd y canlyniad ym mhob achos.

### 3.7 P-05-770 Ailagor gorsaf Drenau Crymlyn

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i ysgrifennu at

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am fanylion am sut y sgoriodd Crymlyn yn asesiad Cam 1 o orsafoedd rheilffordd newydd posibl.

### 3.8 P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth! a chytunodd i ysgrifennu at:

- Weinidog yr Amgylchedd i ofyn am y canlynol:
    - manylion pellach am y trafodaethau y mae'n bwriadu eu cynnal gyda llywodraethau eraill o fewn y DU ar y posibilrwydd o gael System Dychwelyd Adneuo ledled y DU a threth plastig;
    - ei barn ar y pwynt arall a godwyd yn y ddeiseb ynghylch deddfu i sicrhau y gellir compostio'r holl gynwysyddion ac offer bwyd a diod untro yn gyfan gwbl; ac
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i gael diweddariad ar ddatblygu treth bosibl ar blastigau untro.

### 3.9 P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb hon ynghyd â P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth! a chytunodd i ysgrifennu at:

- Weinidog yr Amgylchedd i ofyn am y canlynol:
    - manylion pellach am y trafodaethau y mae'n bwriadu eu cynnal gyda llywodraethau eraill o fewn y DU ar y posibilrwydd o gael System Dychwelyd Adneuo ledled y DU a threth plastig;
    - ei barn ar y pwynt arall a godwyd yn y ddeiseb ynghylch deddfu i sicrhau y gellir compostio'r holl gynwysyddion ac offer bwyd a diod untro yn gyfan gwbl; ac
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i gael diweddariad ar ddatblygu treth bosibl ar blastigau untro.

### 3.10 P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

Ar gais y deisebydd, cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r eitem i'w hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.11 P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru i rannu'r cynigion a wnaed gan y deisebwyr a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau cyfredol, ac i ofyn am oblygiadau amgylcheddol codi neu ostwng dyfnder llyn Parc y Rhath i reoli perygl llifogydd; a
- Chyngor Caerdydd i ofyn am ymateb i ohebiaeth flaenorol y Pwyllgor.

### 3.12 P-05-768 Galwad i ddychwelyd darpariaeth Pediatreg, Obstetreg dan arweiniad Ymgynghorydd ac Uned Gofal Arbennig Babanod 24 awr i Ysbyty Cyffredinol Dosbarth Llwynhelyg

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd. Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar y sail y cafodd y newidiadau gwasanaeth y cyfeiriwyd atynt eu gwneud yn 2014 ac ymddengys nad oes fawr o botensial realistig i'r rhain gael eu gwrthdroi, yn enwedig yn sgil y cynigion diweddar ar gyfer ailgyflunio gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor Iechyd Cymuned.

### 3.13 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Vertex Pharmaceuticals, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd a chytunodd i drefnu sesiynau tystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet a Vertex ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

### 3.14 P-05-789 Adolygu cymorth i geiswyr lloches sy'n ymgymryd ag addysg bellach

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, ynghyd â sylwadau pellach gan y deisebydd, a chytunodd i aros am ganlyniad yr ymgynghoriad cyfredol a phenderfyniadau dilynol a wneir gan y Gweinidog cyn penderfynu ar unrhyw gamau pellach ar y ddeiseb.

### 3.15 P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

- cau'r ddeiseb oherwydd nad yw'n bosibl nodi sut i symud y ddeiseb ymlaen heb gyswllt â'r deisebydd; a thrwy wneud hynny
- Cyflwyno cwestiwn i Gomisiwn y Cynulliad yn enw Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau ar y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.16 P-04-683 Coed mewn Trefi

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd nad yw'n bosibl nodi sut i symud y ddeiseb ymlaen heb gyswllt â'r deisebydd, ac yn sgil y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar yr un pwnc â'r ddeiseb.

### 3.17 P-05-776 Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd nad yw'n bosibl nodi sut i symud y ddeiseb ymlaen heb gyswllt â'r deisebydd, ac oherwydd rhywfaint o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i gofio bywyd William Williams.

Drwy wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd am gyflwyno'r ddeiseb ac am ei waith ar y pwnc hwn.

### 3.18 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Cymwysterau Cymru i gael diweddariad ar y sefyllfa bresennol, gofyn am wybodaeth am faint o bynciau TGAU a Safon Uwch na ellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a gofyn pa gymorth sydd ar gael i fyrddau arholi i'w hannog i ddarparu papurau arholiad a deunyddiau ategol; ac
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu, neu y byddai'n disgwyl i Cymwysterau Cymru ei ddarparu, i gynorthwyo byrddau arholi sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru i ddarparu papurau arholiad a deunyddiau ategol drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 4 Sesiwn dystiolaeth - P-05-799 Newid y Cwricwlwm Cenedlaethol a dysgu hanes Cymru, a hynny o bersbectif Cymreig, yn ein Hysgolion Cynradd, Uwchradd a'r Chweched Dosbarth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Deisebydd a Dr Elin Jones.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod am weddill busnes heddiw:

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod sesiynau tystiolaeth blaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a chytunodd i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn ystod tymor yr Haf.

## 7 Trafod y dystiolaeth - P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb

Trafododd y Pwyllgor y crynodeb o'r dystiolaeth a chytunodd i lunio adroddiad ar y ddeiseb.